Cyfres Llanbedr | Ebrill, 1932. | Cyf. 32. Rhif 4.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. — Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

"Run Down."
Deio'r Gwahoddwr.
Gwna a Fedri.
Doctor Evan Evans, Aeron Villa.
Er Cof am Dr. Evan Evans (Doctor Tynant).
Dyffryn Cletwr Fach.
Priodasau.
Marwgofion.
Nodion yr Egiwysi.

Y Gwirionedd ach rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN BAROD Y MIS HWN.

CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

Pris - - 5/-.

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. EBRILL, 1932. Cyf. XXXII. Rhif 4.

"*Run Down.*"

MAE'N ddydd Ffwl Ebrill ac y mae rhywun neu rywbeth wedi chwareu Ffwl Ebrill a mi ers tro. Daw'r meddyg yntau yn ei dro a dywed "*Run Down*". Fe fuasai lawn cystal gennyf pe dywedasai "Ffwl Ebrill" oherwydd i mi nid oes fymryn o wahaniaeth ystyr rhwng y ddau derm. Y mae "run down" yn derm cyfleus a saff. Ni wn i ddim am y "*run*" ond yr wyf wedi bod "*down*" am wythnosau, ac y mae o leiaf hanner gwir yn y term. Ni cheisiaf i ddeffinio'r term. Y mae'n rhy anodd. Y mae'n rhy benagored. Nid yw ddim yn wahanol na phe dywedid wrth ddyn wedi cwympo : "Yr ych ar lawr a chewch eich amser i godi. Ymrowch i fwyta er i chwi ddod yn ddigon cryf i godi, ac fe godwch wedyn". Y mae yn gysurlawn. Ydyw. Gwr bonheddig o Sais ydyw Mr. Run Down, ac fel pob Sais ymddengys ei fod yn gwybod popeth, ond wedi cydfyw ag ef dro byd bellach nid wyf i ddim callach. Nid oes i mi ond siglo 'mhen ac ymddangos yn ddoeth, a dweyd dan fy llais "*Run Down*". Ni fwriadaf fod yn sarcastig ond gwelaf awgrym o ddameg dlos yn y term—*Run Down*—Ni ddown a mi fy hunan i'r darlun onibai fod fy eisiau arnaf er esbonio'r ddameg. Wedi'r Ffliw, dyma'r *Run Down*, a theimlo'n ddiolchgar am wely deri danaf rhag mynd trwyddo. Dyna'r teimlad o leiaf. Nid oes flâs ar ddim. Y mae popeth o chwith, a'r nerfau, chwedl y Sais, *ar eu cantiau i gyd*!

Cofiaf pan oedd gennyf gar modur y buasai'n achwyn yn dost o byddai'r *petrol* heb fod y goreu. Yr oedd yn *pwffian* yn galed fel pe awgrymai, "Arnoch chwi mae'r bai : rhoi'r hen betrol hyn i mi." Ni ddeallwn. Ni ofalwn. Y mae dyn yn dysgu drwy brofiad, a phwy ddydd fe gydymdeimlwn â'r hen gar druan. Yr oedd gennyf gur yn fy mhen fel cnoc yr hen ingin yn y car, ac ni

fedrai asperîn mo'i dawelu. Ni wnai'r meddyg ond gwenu'n ddiflas a dweyd fod y *gwaed* yn deneu. Cofiais am y *petrol* gwael a chydymdeimlais â'r hen gar modur ar y rhiw. Pan gaf gar eto, ond ni welaf mohono yn dod ar frys, oni'm temtir i brynu ticed yr "Irish sweepstake", ond pan y'i caf, gofalaf am y petrol.

Nid wyf yn sicr nad yw dyn dipyn bach yn fyr ei flewyn pan fo'n Run Down. Y mae'r dim lleiaf yn ei anesmwytho, ac ymddengys tomen o bridd y wâdd iddo fel yr Wyddfa o leiaf. Y mae'r nerfau hwyrach yn mawrhau pob dim neu y mae'r gwaed tenau yn peri i ddyn weld popeth fel yn y niwl—yn llawer mwy o faint nag ydyw. O bydd rhywun yn tybio fy mod yn gorliwio, cofied fy mod yn Run Down.

Dyna'r ddameg. "Y neb sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed"—ar y dehongliad.

O gofio blynyddoedd y Rhyfel Mawr, teimlaf fod dynoliaeth wedi cael y Ffliw yr adeg honno. (Nid amheuwn pe dywedid iddi gael ergyd o'r parlys—y Strôc). Byth oddiar hynny y mae'n Run Down. Nid oes ddim i'w deimlo ond anesmwythyd—rhwng dyn a dyn, rhwng dosbarth a dosbarth, a rhwng gwlad a gwlad, ie, rhwng dyn ac ef ei hun. Pe ceid darlun o'r tair blynedd ar ddeg ni buasai ond un bennod o annibendod ac anesmwythyd—gwerin byd yn run down. Dyna esbonia broblemau mawr y byd heddiw. Nid oes ddiwydiant na cheid streic ynddo onibai fod y llafurwr yn rhy wan i streicio. Troer i'r Amerig a cheir ei bod ers tro mewn hunllef a Chapone a'i gyffelyb yn aflonyddu'i chwsg. Fe fuasai cymryd babi Lindberg yn chwerthinllyd onibai ei fod yn drasiedi i'w dad a'i fam—ac nid yw un miliwnydd ar ol y llall, Kreuger ac Eastman yn lladd eu hunain, ond awgrym fod dyn yn *run down* ac yn methu dal y straen.

Dau ddyn sâl yn "cwympo mâs" yw rhyfel China a Japan, ac un ohonynt beth yn gryfach na'r llall, yn ceisio achub mantais ar anhwylder ei gymydog er trawsfeddiannu darn o'i dir er iddo ef gael lle i fynd i newid aer. Ni ddywedaf na wnaeth Prydain droion tebig yn y gorffennol ond diolch na chaniatâ cydwybod byd i neb eu gwneud heddiw. Caniateir i ddyn sâl wneud yr hyn na oddefir i neb arall eu gwneuthur. Ni wneid mohonynt onibai fod y byd yn *run down*. Darllenir ddydd ar ôl dydd am ryw anesmwytho. Ni ddwedaf ddim am De Valera a'r llŵ yn Iwerddon. Nid yw'r llŵ yn ddim i mi onid yw yn dangos awydd calon dwy wlad i gyd-fyw a chyd-drefnu eu tynged. Pan fetho gwr a gwraig gydfyw nid oes dim amdani ond ysgariad. Tybed fod yma un ddeddf i fywyd teuluol a deddf arall i wledydd. Gwelir yr un

peth gydag Hitler yn yr Almaen, yr anesmwytho yn Ysbaen, y Sofied yn Rwsia, Gandhi a'r ysbryd anesmwyth yn India, ac yma a thraw ymhob parth o'r byd. Y mae nerfau'r byd *on edge*, ac nid yw'r cyfan ond awgrym i mi fod y byd heb ddod yn ôl i'w bwyll wedi bod yn "*ffliw* y Rhyfel Mawr". Y mae'n cymryd amser. Ydyw, ac y mae hyd yn oed Etholiad Cyffredinol pob gwlad yn dangos na hydera gwerin ynddi hi ei hun. Y mae'n *run down*, ac y mae eisiau *tonic* arni. Yr wyf mewn cydymdeimlad â hi, a hwyrach felly yn ei deall yn well yn y gwely nag yn unlle arall.

* * *

Yr wyf wedi bod yn meddwl tipyn yn ddiweddar. Heddiw yr wyf yn barod i dystio fod dyn yn darllain gormod a meddwl rhy fach. Rhwng y wireless, y papurau newydd, y nofel a'r llyfr, nid oes amser i feddwl. Y mae dyn yn rhy debig i gramaffôn. Hwyrach nad yw'r meddyliau hyn ond *symptom* arall fy mod yn "run down".

Ychydig amser yn ôl darllenwn ystadegau. Cofiwn ddarllain am y locustiaid yn dod fel ton, fan yma heddiw ac wedi mynd yfory gan ddifa ffordd y cerddent. Y mae yna ambell glefyd fel y ffliw, dyweder, yn symud felly. Fe ddarllenwch amdani yn Llundain heddiw ac yfory ceir yr un hanes o drefi ereill. Nid yw hynyna ond awgrym i baratoi'r ffordd. Yn ddiweddar, yn ystod y tri mis diweddaf bum yn ymgomio a swyddogion a blaenoriaid deuddeg o eglwysi o wahanol enwadau yma a thraw heb fod ddeng milltir oddiyma. Rhoent i mi yr un gyffes, ac yr oedd y gyffes mor debig a nodweddiadol nes peri i mi feddwl ac ail-feddwl. Nid oeddwn wedi ei glywed erioed o'r blaen. Yr oedd y stori yr un. Rhyw gwestiwn dibwys yn codi mewn eglwys, ac yn ddiarwybod i neb y cwestiwn dibwys wedi mynd yn holl-bwysig nes magu drwg deimlad a phlannu hadau rhwyg. Fe'm synnid i fod pethau mor ddibwys yn medru aflonyddu a thrwblu'r dŵr yn Eglwys Dduw. Cofiwn fy mod wedi synnu at asgwrn y gynnen yn hen gwerylon 'slawer dydd a chwalodd yr hen Anghydffurfwyr mewn llawer ardal. Nid wyf yn sicr nad wfftwn arweinwyr crefydd am eu hannoethineb a'u diffyg medr i dawelu'r storm. Nid wyf yn sicr na theimlaf heddiw eu bod yn brwydro nid a chig a gwaed ond a thywysogaethau—brwydro a'r nwyd gyntefig yng nghalon dyn.

Ni cheisiaf i farnu cwerylon dibwys eglwysi ond holaf fy hunan yn aml, a ydyw crefydd yn ddim amgen na *shine* ar lawer type o ddyn. Y mae mwy o'r Hen Frythoniaid a'r Iberiaid, mwy o wŷr yr ogofeydd yn aros ynom nag y tybiwn. Dywedir nad yw'r

greddfau sydd ynom ond *remnants*—Y mae yr elfen ymladdgar ymhawb o'r adeg yr oedd yn rhaid i'r *caveman* ymladd neu farw. Pan fyddo dyn yn *run down* y peth cyntaf a wna yw dychmygu hen ymladdfeydd—dychmygu ymgomiau â rhywun, ie dychmygu ysgrifennu llythyron at elyn. Y mae'r hen ysbryd ymladd yn dihuno ac yn gwrthryfela. Y mae fel dyn parchus yn syrthio oddiwrth râs ar nos Sadwrn pae. Y mae eisiau ysbardyn ar geffyl rhedeg wedi blino ac y mae eisiau ysbardyn neu *stimulant* ar ddyn "*run down*". Y mae meddwl am frwydr a chynnen a phledo yn peri i'r glands arllwys yr hen wenwyn i'r gwaed a gyn-ddeiriogai'n teidiau pell pan wisgent groen gan liwio'u cyrff yn lâs cyn cerdded yn llawen i'w hangau gan ddisgwyl eu gwella yn Afallon neu yn Falhala. Nid condemnio'r ysbryd neu'r reddf a wnaf ond awgrymu mai yr un ydyw yn Capone heddiw pan ridylla'i wrthwynebwyr ag ydoedd yn Henry Ward Beecher pan daranai yn erbyn trais ac anghyfiawnder gan ddywedyd,—"*All the bells that God has put in my belfrey shall ring*!"

Ni ddisgwyliaf beidio crwydro ond fy mhwynt yw fod y reddf fel ceffyl a nâd yn barod i redeg ar wyllt pan gaiff gyfleu, a'r foment y mae dyn yn *run down* yw cyfleu'r reddf i gicio dros y trasis. Ni chredaf y'm hamheuir. Os felly, nid yw'r cwerylon eglwysig dibwys y soniais amdanynt ond *symptonau* bod bywyd crefyddol yr Eglwysi fel bywyd y wlad yn "*run down*". Y mae'n bryd i'r Eglwys gael tonic er iddi goncro gartref ar yr aelwyd ac wedyn concro wrth ymladd â thywysogaethau yn y byd.

Beth amser yn ôl yr oedd yna "ymgomiau" ar y wireless a dynion mawr yn dweyd a wnaent pe caent fod yn "dictators" ar y byd. Ni charwn i fod yn "ddictator" ond pe'm gorfodid i gymryd y swydd yn Eglwys Dduw, credaf na buaswn yn llawdrwm ar bechodau a gondemnia'r eglwys ond gwn y byddwn yn gosod un ddeddf i lawr yn bendant—na chai neb ddod at fwrdd y cymun heb ei fod wedi maddeu i'w gymydog ac wedi anghofio pob cynnen a chweryl dibwys yn ystod y mis.

Y mae gwaed yr Eglwys fel fy ngwaed innau yn rhy deneu. Y mae eisiau tonic arni, ac fe'i caiff gan y Meddyg Da ar ei gymryd, ond heddiw y mae fel finnau yn *Run Down*.

Deio'r Gwahoddwr.

RHYFEDD iawn ydyw fel y cyfnewidia arferion cymdeithas o un genhedlaeth i'r llall. Dyry arferion un genhedlaeth le i arferion newydd y genhedlaeth a ddaw ar ei hôl. Hawdd iawn y gellid enwi un cyfnewidiad ar ôl y llall, nid yn un cysylltiad o fywyd cymdeithas yn fwy na'r llall, eithr ymhob cysylltiad. A pheth naturiol, esmwyth, fel rheol, ydyw'r trosiad o un math ar arferion i fath arall ar arferion, o arferion un genhedlaeth i arferion cenhedlaeth arall ar ei hôl ; mor naturiol ydyw, fel y digwydd heb i neb sylwi arno. Hawdd y gall henafgwr wedi cyrraedd " dyddiau'r addewid " enwi engraifft ar ôl engraifft o'r cyfnewidiadau hyn.

Nid yn un cysylltiad, debygaf, y gwelir cyfnewidiad mwy amlwg nag a welir ynglyn â phriodasau. Yn ein dydd ni, priodasau " bach " yw'r rheol—goreu i gyd po leiaf y bônt. Wyr neb—o leiaf, ŵyr ond ychydig iawn—beth yw ystyr yr ymadrodd " priodasau Mawr ". Heddiw, eir i'r byd esmwyth—a dybir yn fyd esmwyth, o leiaf, ond a dry allan yn dra gwahanol i'r disgwyliad yn fynych iawn—cyn ddistawed ag y bo modd, heb ond cyn lleied o gwmni ag sydd bosibl. Pan oeddwn i yn blentyn, trefnid priodasau yn dra gwahanol i hyn. Bryd hynny, gwahoddai'r ddwy ochr—eiddo'r " mab ifanc " ac eiddo'r " ferch ifanc "—eu holl berthynasau, tu fewn i'r nawfed âch, i'r briodas ; ynghyd a phobl y gymdogaeth neu'r cymdogaethau cylchynol ; a chedwid y dydd fel " dydd gwyl ". Dim ond un " briodas fowr " o'r iawn ryw sydd wedi aros yn fyw iawn ar fy nghof. Dywedaf o'r " iawn ryw ", oblegid, fel y gwahaniaetha'r sêr yn eu gogoniant, gwahaniaethai " priodasau mowr " hefyd yn fawr iawn—yn nifer y gwyddfodolion, yn rhwysg yr orymdaith o'r tai y cychwynid o honynt i'r Eglwys, yn y brwdfrydedd a oedd yn cydfynd â gweithrediadau'r dydd pwysig i gyd. Nid ystyrrid priodas yn " briodas fowr " o'r iawn ryw, hefyd, heb i geffylau chwarae rhan bwysig ynddi ; eithr ni wn a fwynhai'r ceffylau eu hunain lawn cymaint a'u perchen ; y mae ynof beth amheuaeth parthed i'r mater hwn. Am yr un " briodas fowr " o'r iawn ryw sydd wedi aros ar fy nghof, rhyfedd iawn ydyw mai o Gwmiago y cychwynai un o'r partion—parti'r " mab ifanc ". O'r Frowen y cychwynai'r " ferch ifanc ". Yn Eglwys Pencarreg y priodid. Yn yr ysgol yn Llanwnen yr oeddwn ar y pryd—yn yr ysgoldy newydd (newydd bryd hynny) ynghanol y pentref. Cawsom ganiatad gan yr athro i fod y tu allan i'r ysgoldy er inni weld yr orymdaith. Ni chawsom ond megis cipolwg arni ; oblegid carlamai'r ceffylau trwy'r pentref. Pam y rhaid carlamu ? Y gamp oedd bod y cyntaf i gyrraedd porth yr Eglwys—gorchest a dybid

yn gryn anrhydedd. Y cyntaf i gyrraedd porth yr Eglwys yn y briodas honno, os nad gwallus fy nghof, oedd y diweddar Mrs. Thomas o Lysfaenisaf, a oedd, bryd hynny, yn llawn o nwyfiant ieuenctid. Y mae " mab ifanc " y briodas honno wedi dod i ben y dalar er's blynyddoedd ; eithr y mae'r " ferch ifanc " yn fyw eto ; a phery'n ifanc—yn ifanc o ysbryd, o leiaf, os nad o gorff.

I'r dô ifanc o'n darllenwyr, efallai nad anniddorol a fydd darluniad byr o'r hen drefn ynglyn â phriodasau. Ychydig wythnosau—rhyw dair, mwy neu lai—cyn dydd y briodas, gelwid ychydig berthynasau a chymdogion ynghyd i dŷ rhieni un o'r ddau barti—naill ai eiddo'r gŵr ifanc " neu eiddo'r " ferch ifanc ", i'r diben o roddi'r " gwawdd " allan. Yn y cynulliad hwn, penodid cennad i fynd o gylch y wlad i wahodd (" gwawdd " y'i gelwid yn gyffredin) pawb i'r briodas. Gwahoddwr y gelwid y gennad, wedi'i gyplysu wrth enw'r person, megis, " Deio'r Gwahoddwr ". Ceid un o honynt, weithiau ragor, ymhob cymdogaeth. Yr oedd yn fath ar " alwedigaeth gaeedig ", na feiddiai'r anghyfarwydd sangu tros ei ffiniau ; a pherson poblogaidd, a berchid yn fawr, yn enwedig gan bobl ifeinc. Gallwn enwi amryw o honynt, ped atebai hynny ryw ddiben ; eithr " Deio'r Gwahoddwr " yw'r enw y sydd wedi glynu dynnaf wrth fy nghof. Ifanc iawn oeddwn pan welais ef gyntaf— rhyw gymaint tan y deg ; oblegid ym Mhenlôn yr oeddwn ar y pryd. Yr oedd ef, bryd hynny, rhywle yn nhymor canol oed—tua'r hanner cant. Labrwr ydoedd o alwedigaeth ; dyn o daldra canolog, cadarn o gorff, er nad yn gorffog, â barf yn cuddio'r ên yn unig. Bu'n trigiannu yn amryw leoedd, megis, Capel Sant Silin a Throedrhiw (Llechwedd-dderi) ac o bosibl mewn lleoedd eraill. Yn y lle olaf a ennwyd y trigiannai adeg olaf ei fywyd. Daeth i derfyn truenus, trwy syrthio o hono tan olwyn trol. Gyda llaw—ef oedd tad y diweddar Evan Evans o Giliau. Dyn gwrol a chwmniwr diddan—anhepgorion gwahoddwr da. Ystyrrid ef gyda'r goreu o'r hil wahoddol ; ac ef ydoedd wahoddwr poblogaidd y cymdogaethau o gylch Dyffryn Grannell. Braidd na ddychmygaf ei weld, adeg ysgrifennu'r llinellau hyn, fel y'i gwelais aml i dro, yn cerdded yn frysiog a chadarn ei gam o dŷ i dŷ, gyda ffon gref (bastwn) yn ei law, nid annhebig i ffon ddraenen ddu y Gwyddel (y shillelagh), cwdyn gwyn ar ei gefn i gludo'r rhoddiod a gai yn y ffermydd—bara neu gaws neu flawd ceirch, fel y digwyddai. Ymwelydd derbyniol ydoedd ymhoblle ; a chynted ag y'i gwelid yn dynesu at dŷ, tyrrai'r trigianwyr o'i gylch i glywed ei " ffras ", fel y gelwid ei stori. I bobun, yn enwedig i blant, yr oedd i " ffrâs ", y gwahoddwr ryw swyn rhyfeddol iawn. Da y cofiaf fel y gwrandawn arno : ac aml i dro y bûm yn gwrando arno—amled, er mai ieuanc oeddwn, fel nad anodd imi, hyd yn oed yn awr, uwch trigain mlynedd wedi hynny, ei hail-adrodd, os nad yn hollol eto'n agos iawn yn ei eiriau ef ei hun—rhywbeth tebig i a ganlyn :

" Dydd da i chwi deulu parchus o'r mwya hyd y lleia o'r hena hyd yr ienga, yn wyr a gwragedd, yn fechgyn a merched, yn weision a morwynion, a phawb sy'n fy ngwrando ar hyn o bryd, rwy'n erfyn arnoch i roi gwrandawiad astud i'r neges sy genni i ddweyd yn eich clywedigaeth rwy'n dod yma'n gennad o wahoddwr dros D—— J——— o D——— o un tu a M—— D—— o L——— o'r tu arall i'ch gwawdd chwi oll o bob oed a rhyw i'w priodas dydd ——— pythefnos i'r nesaf bydd cwmni dros y gwr ifanc yn cychwyn o D——— am naw o'r gloch y bore i fynd i L——— i mofyn y ferch ifanc i gwrdd ag e yn Eglwys Llan——— i gael eu huno mewn priodas ac ar ôl gorffen hynny o seremoni bydd y gŵr a'r wraig ifanc yn dychwelyd gyda'i gilydd i L——— a byddant yn falch i weld yr holl gwmni'n mynd gyda hwy i gyfranogi o'r darpariadau o fwyd a diod o bobmath a fydd yno'n eu disgwyl yn y prynhawn bwriadant gynnal neithior gyda'i gilydd pryd y bydd y gŵr a'r wraig ifanc yn galw i mewn bob pwython dyledus iddynt bydd tad a mam y gŵr ifanc ynghyd a dau ewythr o ochor ei dad ac ewythr o ochr ei fam yn galw i mewn bob pwython dyledus iddynt hwy bydd tad a mam y wraig ifanc ynghyd a'i brawd ac ewythr o ochr ei thad a modryb o ochr ei mam yn galw i mewn bob pwython dyledus iddynt hwythau i ddwylo'r pâr ifanc ac y mae'r pâr ifanc hwythau yn addo talu'n ôl bob rhoddion ychwanegol a gyflwynir iddynt gan berthynasau a chyfeillion pa bryd bynnag y gelwir amdanynt hefyd bydd y pâr ifanc y noson flaenorol yn derbyn eu perthynasau a'u cyfeillion pob un yn ei gartref ei hun pryd y byddant yn falch i weld a chroesawu a'u hanrydeddu a'u presenoldeb a pha roddion bynnag a gyflwynir iddynt fe'u telir yn ôl y cyfle cyntaf a gânt i wneud hynny."

Wedi iddo orffen ei " ffrâs ", adroddai'r gwahoddwr (fel rheol) nifer o benillion naill ai o'i gyfansoddiad ef ei hun neu eiddo rhyw fardd lleol arall. Y mae un o'r hen ganeuon hyn yn fy meddiant. Nid oeddynt o ansawdd uchel fel barddoniaeth—oddigerth (efallai) ym marn eu hawdur. Yr oedd i farddoniaeth, fath ag ydoedd, le amlwg a phwysig yn y gweithrediadau hyn. " Ffrâs " heb benillion yn ddiweddglo iddi ! Diflannai mesur mawr iawn o'i swyn. Fore'r briodas, eto, chwaraeai'r bardd lleol ran bwysig. O ddarllen y " ffrâs " fel y'i rhoddir uchod, sylwa'r darllenydd, yn ddiau, na thalai'r gwahoddwr ddim sylw i atal-nodaeth. Dywedai ei stori fel ffrwd lifeiriol—ymron yn ddi-aros ; pallu o'r anadl yn unig a barai iddo aros dim ; a hyd yn oed pan orfodid ef i gymryd anadl, braidd y medrai neb graffu i ddim toriad ddigwydd.

Fel y sylwyd, y mae dydd y " priodasau mowr " ymhlith yr arferion a fu gynt ond nad ydynt mwyach. Dywed rhai mai

gwelliant yw'r newydd. Boed felly. Eithr i'm tyb i, teimlad dymunol iawn oedd y teimlad tu cefn i'r hen arferion hyn—y "priodasau mowr" a'r "neithiorau": pâr ifanc, ar ddechreu'u cyd-fyw, yn gwahodd eu perthynasau a'u cyfeillion i gyd-lawenhau â hwynt; y perthynasau a'r cyfeillion hwythau yn dod ynghyd i roddi "cychwyniad da" i'r pâr ifanc. Na, nid gwelliant i gyd yw'r newydd o'i gymharu â'r hen.

Nid er rhoddi hanes llawn o fywyd "Deio'r Gwahoddwr" y cychwynais ysgrifennu hyn o lith, eithr er rhoddi darluniad o hono yn y cymeriad o "wahoddwr". Hanes gweithiwr cyffredin, gwledig, tebig i'r eiddo eraill o'i ddosbarth, a fyddai'r hanes pe'i hysgrifennid; hanes diddorol ddigon, yn ddiameu, fel hanes popdyn o bobmath ar alwedigaeth neu sefyllfa. Perthyn ryw swyn rhyfeddol i bobmath ar fywgraffiadau, hyd yn oed i eiddo'r dinotaf o ddynion. I'r dô bresennol o drigolion Dyffryn Grannell, enw wedi syrthio i dir angof ydyw enw Deio; ac ni cheir ond y garreg lâs gyffredin ac ychydig lythyrennau a gofnoda'r enw a'r oed a'r dydd y bu farw, ym mynwent Capelygroes. Ni sonir am dano fel "gwahoddwr"—ymron yr olaf, os nad yr olaf, o'i ddosbarth.

D.E.

Gwna a Fedri.

CLYWIR yr achwyniad yn lled gyffredin y dyddiau hyn nad yw plant yn yr ysgol ddyddiol heddiw yn cael eu dysgu mor drwyadl ag y dysgwyd eu tadau a'u mamau gynt. Yr wyf wedi clywed hyn mor aml yn ddiweddar fel ag y teimlaf ei bod yn rhaid i mi ddweyd fy nghwyn wrth rywun, ac efallai agor llygad ambell i un sydd yn tueddu i weiddi gyda'r lliaws. Dywed ambell un o'r hen gewri wrthych fel hyn "Drymio ar y 3 R's oedd yn fy amser i,—reading, 'rithmetic a 'riting, a chlywais i erioed sôn am Physical Training a Science ac yn y blaen." Digon gwir, a gwneir hyn hefyd heddiw, ond gadewch allan y gair "drymio".

Dywed arall fod y gwaith yn yr ysgol yn cael ei wneud yn rhy hawdd i'r plentyn heddiw, a bod y cwbl yn tueddu i fod yn ryw ffug-ddysgu. Hwyrach eich bod yn cofio yr amser pan glywech tua thri o'r gloch yn y prynhawn, yr ysgolfeistr yn dweyd rhywbeth tebig i hyn—"Nid oes mynd gartre heno, cyn dysgu y darn yma o farddoniaeth i gyd" ac yntau ar y pryd yn llygad rythu ar ryw dudalen neu ragor o farddoniaeth a hwnnw wedi ei argraffu mor fân fel nad ai pin bach rhwng y llinellau.

Wel! mae cnul yr adeg yna wedi ei chanu ers tro bellach, ond da chwi! peidiwch a meddwl fod y dysgu yn llai trwyadl er hynny. "Mae llawer ffordd o ladd ci heb ei grogi"; Oes! a llawer ffordd i ddysgu plant heb eu dyrnu. Nid drwy nerth y fegin y cyn y tân bob amser, ond trwy ei dendio a brigau mân crîn.

O bosibl y gwnai brynhawn yn yr ysgol fel ag y mae heddiw les i lawer o'r hen fechgyn yma sydd mor barod i farnu.

Dewch gyda mi am dro i'r ysgol i glywed yr athro yn gyrru ryw bwynt bach adref i'r meddwl bach eiddil sy'n gwrando arno.

Dacw nhw yn eu seddau yn disgwyl am y wers, tra'r athro yn ei feddwl ei hun yn ceisio dyfalu'r modd gorau i orchfygu, ie gorchfygu, nid osgoi y ffordd serth mae ar fin ei thramwy.

Dacw'r pwnc dyrys wedi ei ddadrys, ac yntau'n dechreu trwy ddweud: "Stori sydd gennyf i'w dweud wrthych am ffermwr gweithgar ar gae llafur. Yn y gwanwyn bu'n brysur yn aredig y tir ac yn hau'r hâd, ac yna yn ei chwynu yn ei iawn bryd. Ond pan ddaeth yr haf, gwelodd y llafur yn crino o eisiau glaw, ac er mynd allan i'r cae a mynych edrych i fyny, ni welai un arwydd o law. Un dydd, tra edrychai yn brudd ddigon tua'r wybr gwelodd ddau ddefnyn o law ef,—pa mor brudd a thrist oedd ei wedd, ac meddai un wrth y llall 'Edrych ar y ffermwr acw druan, mae'n ddrwg gennyf drosto. Carwn pe medrwn wneud rhywbeth drosto.' 'Druan ohonot' ebe'r llall, 'dwyt ti ond un diferyn bach, fedret ti ddim torri syched hyd yn oed un dywysen o'i lafur.' 'Gwir a ddywedaist' ebe'r cyntaf, 'ond i ddangos fy nghydymdeimlad âg ef druan, mi âf i lawr beth bynnag.' 'Os wyt ti'n mynd, mi ddof innau', ebe'r llall, ac i lawr y daeth y ddau. Disgynnodd y cyntaf glap! ar drwyn y ffermwr, a'r llall wrth wraidd y dywysen. Yn y cyfamser fe ddaeth llawer o ddafnau ereill i weld beth oedd yn bod, ac o weld dau wedi dod i lawr i wneud tro da â'r ffermwr, penderfynasant hwythau ddilyn eu hesiampl ac i lawr y daethant, gan roi i'r cnwd llafur gawod dda o ddŵr bywiol. Fe dyfodd, ac aeddfedodd, a'r cyfan drwy i'r defnyn cyntaf wneud yr hyn a allai er mai ychydig oedd."

Gadawn y plant a'r athro i weithio allan eu iechydwriaeth eu hunain, a gofynnwch a oedd yna rywbeth yn y stori i chwi blant hŷn? Pob un i ateb drosto ei hun, ond i mi mae ynddi ddyrnod lled drwm.

Nid ydym ni ond defnynnau bychain, ond llawer o'r rhain sy'n mynd i wneud cawod, fel y clywsoch, a honno'n gawod fendithiol

i rywun a fu'n hir ddisgwyl am dani. Penderfynnodd y diferyn wneud ei orau ar unwaith, heb yn gymaint a gofyn i un o'r lleill os oedd ef yn barod i wneuthur hynny hefyd. Ond nid oes eisieu ymhelaethu, mae'r stori yn siarad drosti ei hun.

Tebygaf glywed rhywun yn dweyd—ie, ond stori yw honna! Digon gwir, ond fe ddarfu i'r Athraw gorau sydd gennym sôn am dano, agor llygaid llawer drwy gyfrwng stori ddigon syml.

R.E.E.

Doctor Evan Evans, Aeron Villa.

INIFER fawr o'n darllenwyr, enw adnabyddus iawn ydyw enw'r meddyg Evan Evans; yn wir enw adnabyddus ydyw o un cwr i'r llall o Geredigion, ac ymhell hwnt i'w ffiniau. "Doctor Tynant", "Doctor Greengrove", "Doctor Aeron Villa": enwau teuluaidd a fu'r tri, pobun yn ei dro, byth er ymsefydlodd gyntaf fel meddyg yn ei ardal enedigol. Ac ni chlywid mo'u henwi ond gyda rhai a amlygai anwyldeb mawr o hono

Yr oedd yna lawer iawn o resymau a gyfrifai am hyn; oblegid dyn o gymeriad aml-ochrog iawn ydoedd. Dyna'i fedr fel meddyg, er enghraifft: dim ond enwi hwn sydd eisiau, oblegid gwybyddus ydyw i bawb a'i hadwaenai. Yr oedd hefyd yn ddyn o wybodaeth eang, nid yn unig yn ei gylch arbennig ef, eithr mewn cylchoedd eangach. Nid oedd o duedd i wneuthur arddangosiad o'i wybodaeth; yn hytrach, cuddio'i wybodaeth oedd ei duedd gryfaf. Rhaid oedd dod i gyffyrddiad gweddol agos ag ef cyn y gwelid eanged ei wybodaeth. Bu ei wybodaeth yn llaw-forwyn ardderchog i'w fedr fel meddyg. A llwyr roddodd y ddau—ei wybodaeth a'i fedr—ar allor gwasanaeth i'w gyd-ddyn.

Eithr perthynai iddo elfennau eraill mwy ardderchog hyd yn oed na'i wybodaeth a'i fedr, sef, ei ddynoliaeth a'i ddyngarwch aruchel. A dyngarwch wedi'i nawsu â thynerwch mawr oedd ei ddyngarwch. Nid yn unig gwnai ei orau i liniaru a lleihau poen, eithr gwnai ei oreu gyda thynerwch na cheir mo'i debyg yn aml. Pan ddeuai i ystafell y claf, yr oedd yna rywbeth ynddo—personoliaeth arbennig, eithriadol ymron y'i galwaf—a barai i'r claf deimlo, nid yn unig ei fod yng ngofal dyn o fedr a deall mawr, ond hefyd ei fod yng ngofal dyn o gydymdeimlad dynol dwfn. Onid hyn ydyw profiad pobun a fu tan ei ofal fel meddyg?

Ni chyfyngai mo'i sylw, ychwaith, i'w alwedigaeth ; yr oedd iddo lawer iawn o ddiddordebau eraill. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, nid yn unig o lenyddiaeth Saesneg, eithr o lenyddiaeth Gymraeg hefyd. Yn wir, yn enwedig yn ei flynyddoedd olaf, yr oedd llenyddiaeth Gymraeg wedi ennill ei fryd a'i serch i fesur rhyfeddol o fawr. Yr oedd wedi'i feddiannu gan gryn fesur o'r teimlad gwlatgarol Cymreig a nodwedda nifer lluosog o'r genhedlaeth ieuanc o Gymry ein dydd ni. Pleser ac addysg oedd bod yn ei gwmni, a chael ymddiddan ag ef ar faterion llenyddol.

Teimlai ddiddordeb mawr mewn gwleidiadaeth—lleol fel gwladol. Meddai syniadau clir, pendant, goleuedig ar bynciau'r dydd, a medrai eu hamddiffyn gydag ynni—a gwres yn aml. A'i syniadau ef ei hun oeddynt, ac nid syniadau neb arall. Ni chlymai'i hun wrth hualau plaid ond cyn belled ag y gwelai fod y blaid ar y llwybr iawn ; a'r llwybr iawn iddo ef oedd ei lwybr ef ei hun.

Nid oedd heb ei argyhoeddiadau crefyddol. Pe ceisid gennyf i ddarlunio'i safle yn y cysylltiad hwn, rhaid a fyddai imi gydnabod na fedrwn—yn foddhaol, o leiaf. Dipyn yn hwyrfrydig i siarad ar faterion crefydd ydoedd, oddieithr yn gyfrinachol wrth gyfeillion yr ymddiriedai ynddynt. Pan siaradai ar faterion crefydd, hawdd ydoedd deall mai disgybl i'w hoff Wilym Marles ydoedd. Ef oedd ei arwr. Pa syndod, oblegid bu yn ei ysgol. O ran hynny, disgyblion i Wilym ydym i gyd erbyn hyn— y rhai o honom a'i hadnabyddai fel y rhai nas adnabyddai. Yr unig beth a fedraf ddywedyd ar y mater hwn ydyw—mai un fer iawn oedd ei gredo ; eithr er yn fer, ei gredo ef ydoedd. Fel mewn materion gwleidyddol, felly mewn materion crefyddol, nodweddid ef gan fesur mawr iawn o annibyniaeth meddwl. Dilynai ei oleu ei hun, ac nid eiddo neb arall. Parthed unpeth nid oes lle i amheuaeth—bod i " Gapel Ciliau " le cynnes iawn yn ei fynwes.

Diangen sylwi ar aiddgarwch ei gefnogaeth o bobmath ar fudiad a apeliai at ei gydymdeimlad, y teimlai ddiddordeb ynddynt, ac a dueddai (yn ôl a farnai ef) o fod o ryw les. Digon yw sylwi mai bywyd o wasanaeth yn ei ystyr eangaf ac uchelaf a fu ei fywyd—yn enwedig ynglŷn â'i alwedigaeth ; a deuai ei awydd i fod o wasanaeth fwy-fwy angherddol fel yr ai ymlaen mewn dyddiau. Ac nid tâl ariannol ydoedd y cymhelliad cryfaf tu cefn i'r gwasanaeth. Nid cymhelliad annheilwng mo'r olaf hwn. Eithr ni chredaf y medr neb edliw ariangarwch iddo ef. Yr oedd y cymhelliadau o natur gryn dipyn uwch na hyn.

Dyddiau llawn o weithgarwch a fu ei ddyddiau ; ac estynnai'i ddydd gwaith yn aml iawn hyd oriau man y bore ; mynych iawn

ni chai hun i'w amrantau. Ac ni wnai safle gymdeithasol y rhai a alwai am ei wasanaeth un gwahaniaeth : yr oedd yr un mor barod i frysio at wely'r claf tlawd ag ydoedd at wely'r claf cyfoethog. Pa syndod ydyw y cwynir mor gyffredinol oblegid ei golli ? Tystiolaeth uchel i'w werth ac i'r serch a deimlid tuag ato ydyw hyn. Eithr tra gwynwn oblegid ei golli, llawenychwn—diolchwn—oblegid ei wasanaeth didwyll a ffyddlon.

D.E.

Er Cof am Dr. Evan Evans (Doctor Tynant).

(" Y Physygwr annwyl " . . . *Luc*).

'Mhen ugain canrif fe geir darlun byw
Ar gynfas hên, yn felyn gan oed,
Llaw cariad y'i paentiodd, a'i deitl yw,—
" Y Physygwr annwyl."

A champwaith ydyw'r darlun o Luc
Fel fflach o obaith i'r galon wan :
A " *Doctor Tynant* " yn ôl fe ddug
Y Physygwr annwyl.

Fe wyla Aeron yn lleddf ei lli
Mewn cydymdeimlad â'r gwladwyr syml,
A gwn eu colled, waith adwaenwn i
Y Physygwr annwyl.

Amris i'r ardal y bu yn wir,
Daw angau weithion yn hy i'r fro ;
A mwyach disgwylir yn ofer yn hir
Y Physygwr annwyl.

Perchid ei fedr yn agos a phell,
A dwedem ' y meddyg iach-hâ dy hun '—
Heb ddisgwyl ei golli—na disgwyl gwell
Y Physygwr annwyl.

Gofynnid yn fynych a'r claf heb gael tro
" Oni fuasai'n well treio Tynant ? "—
Ofer mwy'r holi, o roddi'n y gro
Y Physygwr annwyl.

Enillodd yr enw Iechydwr y Sir,
A hirell pob " newydd wyrth " drwy'i oes—
A Thud Ceredig wel eisiau'n hir
Y Physygwr annwyl.

Doi'i gariad at lên drwy Ddaniel Ddu :
Gwladwr Cymreig o feddwl praff—
Llawn dynoliaeth drwy'i oes y bu
Y Physygwr annwyl.

Ceid ynddo ruddin hen gedyrn y fro
A thadau golau y " Grefydd Rydd "—
Trwy oreu'i linach y brigodd o—
Y Physygwr annwyl.

Nos fydd uwch Aeron am lawer awr,
A thlawd o glâf wedi colli ffrind ;
Wyla 'r ardaloedd am galon fawr
Y Physygwr annwyl.

Ryw ddydd rhestra'r dyffryn ei ddynion mawr—
Gan fesur eu mawredd wrth safon Duw ;
Os cyfrif gwasanaeth, yn GYNTAF rhoir 'nawr—
" Y PHYSYGWR ANNWYL."

O.

Dyffryn Cletwr Fach.

PAN oeddwn yn rhodianna oddeutu Castellhywel yr oedd y dychymyg ar waith oblegid yr oeddem yn ymdrin â materion a oedd wedi digwydd er cyn côf gennym, ond wedi symud tua chwarter milltir i lawr at yr afon a rhoi ein traed ar y brif-ffordd galwn y côf at ei waith. Gan daflu trem yn ôl dros hanner canrif cofiwn am fwy na dwsin o hên fythynnod tô gwellt tufewn i hanner milltir o'r man lle safwn, ond erbyn heddiw y maent oll yn gydwastad a'r llawr a natur yn ôl ei harfer wedi tynnu gorchudd o redyn, ysgall, drain, mieri a phob math ar chwyn dros eu gruddiau, er mwyn iddynt, ni dybiwn gael hun dawel am iddynt noddi yn ystod yr ystorm yr hen gymeriadau syml a gwledig a fu'n aneddu ynddynt. Cofiwn yn dda am y border bach a oedd wrth ymyl drysau y rhan fwyaf o rhain, lle yr oedd yn tyfu safri-fach, ofer garu, gold, rhosmari ac amryw flodau eraill. Pa le y maent heddiw ? Nid oes dim un o honynt i'w weld yma. Yn ddiweddar yr ydym wedi ymweled ag amryw o'r hen fagwyrydd yn y dyffryn, ac y mae pob un o honynt yn ddieithriad yn orchuddiedig gan chwyn. Nid ydym yn amcanu at ddefnyddio ymadroddion llac, yn hollol i'r gwrthwyneb ; ond gofynnwn pam nad yw " Preswylydd mawr y berth " yn tyfu blodau yn ogystal a chwyn ? Clywsom bregethwr ers ychydig amser yn ôl yn ceisio egluro'r broblem fel hyn : " Gwaith Duw heb ddyn yn anghyflawn, gwaith dyn heb Dduw'n ddiffygiol, gwaith Duw a dyn

yn orffenedig." "Ond dim a wyddom am ei ffyrdd." Boed i'r darllenydd athronyddu fel y myn ar y dyryswch. Synnir ni fod cynifer o anedd-dai wedi mynd i ddifancoll heb yr un wedi ei adeiladu yn eu lle. Gwyddom beth sydd wedi dod o'r rhieni a'r rhan fwyaf o'r plant a oedd yn byw yma gyfnod maith yn ôl, ond beth sydd wedi dod o'u disgynyddion? Ni welir mohonynt yn y parthau hyn.

Dyma'r llecyn prydferthaf yn y dyffryn ac yn ein tyb ni nid oes dim lle yn debig iddo yn y rhanbarth hwn o'r wlad i arddangos tlysni anian, pob congl o hono yn yr Haf yn llawn irwydd a blodau. Dywedodd un o'r hen frodorion wrthym amser maith yn ôl fod y fan hon yn denu bryd Gwilym Marles a'i bod wedi deffro ei awen fwy nag unwaith, ac mai yma y casglodd ddefnyddiau y cyfansoddiad buddugol ar "Y Bwthyn Dedwydd" yn Eisteddfod Conwil, Awst 11, 1858. Y mae cymaint o swyn i ni yn y dernyn fel yr ydym yn methu ymatal rhag dyfynnu dau bennill :—

"Gwel acw'r tad ar doriad dydd
Yn cychwyn tua'r tyddyn mawr,
Ei droed yn ysgafn fel yr hydd,
Ei wedd yn wridog fel y wawr;
Gadawa ei anwyliaid bach
Mewn balmaidd hun yng nghôl eu mam,
A theimla gallai farw'n iach
Cyn gweled un yn goddef cam.

O Gymru! rhwng dy fryniau serth,
Ar wastad dy ddyffrynoedd pêr,
Mae llawer bwthyn sydd yn werth
Yr holl balasau dan y sêr!
Ceir yma serch a chariad pur,
A didwyll foesau gorau byd,
Fel blodau yn y diffaith dir
Yn gwasgar eu bendithion drud."

Hawdd canfod fod ei awen mewn hwyl ac yn chwareus pan fyddai'n teithio trwy'r dyffryn. Yn "Galargan y Fwyalchen" cdrydd helynt y deryn gyda dwyster a manylwch, a gellir dyfalu nad yw'r oll o'r dernyn yn ddychmygol. Wele'r pennill cyntaf :—

"Mwyalchen oedd yn pyncio
Ei chân o alar du
Ar ben yr onnen lathraidd
Gerllaw ei chymar cu,—
'Ni wnaethem ddechreu'r Gwanwyn
Ag eithaf egni iach,
Mor dlysed nyth a welwyd
Ar lannau'r Cletwr Fach'."

Tua diwedd y gân y mae'r fwyalchen yn galaru ac yn dweyd fel hyn :—

" ' A gwelwn Sal yn dringad
Y clawdd yn union syth,
A Wil y Cwm yn helpu
I dorri'n hanwyl nyth."

Yn ei benillion ar " Y Fynwent Newydd " dywaid :

" Ac Ef rydd inni'n fedd ryw annwyl le,
Ar fin y Cletwr Fach neu mhell o dre."

Yn ei gân ar " Y Ffôl a Wawdia " y mae'n sôn am Gletwr :—

" Gan chwerthin yr ynfydion
O Gletwr hyd y môr ;
Ond camwedd bâr yn gamwedd
Nes diffodd haul a llo'r."

Yr ydym wedi dyfynnu mwy nag oeddem wedi fwriadu er mwyn dangos fod un fel Gwilym Marles wedi cael ei swyno gan ddyffryn Cletwr Fach.

Wedi cyd-deithio â'r afon am bellter byr, y mae hi yn rhedeg yn gyfystlys â'r ffordd fawr, yr ydym bellach yn sefyll wrth Felin Castell-hywel neu yn hytrach lle bu melin. Melin enwog yn ei dydd a diwyd wrth ei gorchwyl, ni chawsai fawr orffwystra na dydd na nos, a gweision a morwynion y ffermydd yn canu'n hapus yn sŵn ei rhôd hyd oriau mân y bore. Y mae wedi syrthio ac mewn trwmgwsg yn ei gwely, a chyn belled ag y gwelwn ni, nid oes iddi atgyfodiad buan oblegid fod y dulliau o fyw yn y wlad wedi cyfnewid. Yn y dyddiau gynt yr oedd yr afon yn chwarae rhan bwysig yn niwydiannau'r dyffryn ond heddiw y mae hi mewn ofn y bydd yn rhaid iddi, a hynny yn fuan iawn ymuno â byddin y diwaith a phwyso ar y *dole*.

Siwrnai fer sydd o'r Felin i Gastell Hwmffre. Hên hudwg mawr annelwig yw hwn. Gwna ymestyn ei droed i ymyl y ffordd. Gorchuddir ei gorun a choed talgryf. Hwn yw'r unig ysmotyn du sy'n llychwino cymeriad y dyffryn. Ond rhyw fath ar garnedd goffa ydyw am annoethineb a mympwy arweinwyr ein cenedl tua wyth canrif yn ôl. Saif ar dir yr Esger. Rhyw anturiaethwr Normanaidd oedd yr Hwmffre a'i hadeiladodd er mwyn goresgyn y wlad oddiamgylch. Yn y flwyddyn 1136, yr oedd anghydfod yn ffynnu yn Lloegr, felly ymadawodd yr arglwyddi a ddaliai eu hystadau o dan y brenin a'r marchogion a Chymru gan gymeryd mantais o'u habsenoldeb, darfu i feibion Gruffydd ap Cynan, Tywysog Gogledd Cymru, losgi y Castell yn ogystal a Chestyll Ystrad Meurig, Llansteffan a Chaerfyrddin. Yn y flwyddyn 1150 atgyweiriwyd y castell gan Hywel, mab Owen Gwynedd. Yn ôl Brut y Tywysogion galwyd ef y pryd hwn yn Gastell mab Hwmffre.

Ym mhen saith mlynedd, Mehefin 1157 darfu i Rosier, Iarll Clare ac Einon, mab Anarawd, brawd Yr Arglwydd Rhys wneud ymosodiad ar y Castell a lladdwyd y Marchogion dewraf a holl geidwaid Y Castell.

Ar dwyn uchel tu hwnt i'r afon, gyferbyn a'r Castell y saif Gwaralltyryn, hen ffermdy, lle y trigai tua chanrif yn ôl un o'r enw Sarah. Enwogodd Rees Jones (Amnon) hon yn ei ddisgrifiad o honi mewn ymddiddan â'r meistr—David Lloyd o Alltyrodyn pan oedd prydles ei thyddyn ymron mynd allan. Wedi cytuno mewn perthynas i'r rhent ac amryw bethau eraill gofynnodd Sarah iddo am "lês *three everlasting life*". Ac fe gafodd hynny o'r diwedd a diweddodd yr ymddiddan fel hyn :—

"Anghofiais ofyn a gaf fi
Y cynnyg cyntaf gennych chwi ?
Os gwelaf, er fy ngofid cas,
Three everlasting yn mynd ma's."

"Cewch, Sarah, cewch a lês hir lân,
Three 'everlastings', fel o'r bla'n,
Pan weloch chwi, neu rai o'ch tras,
Un *everlasting* yn mynd mas."

Ac meddai Amnon wrth derfynu :—

"Ni wyddai Sarah ddim o'r iaith,
Nac ystyr everlasting chwaith."

Y wers a ddysgir yn y gân hon yw ei bod yn bwysig inni wybod ystyr pethau.

GLAN GLOWON.

Priodasau.

DYDD SADWRN, Chwefror 20, yn Eglwys St. Mair, Abertawe, gan y Parch. Gilbert Morris, B.A., Mr. John David Morgan, "Arosfa," Trebanos â Miss Emily Lowther, 1, Carmarthen Road, Abertawe.

Bydded eu cartref yn drigle heddwch, a chariad a gwir grefydd.

SADWRN, Mawrth 19, yng Nghapel Llwynrhydowen, gan y Parch. E. O. Jenkins ac o flaen y Cofrestrydd, Mr. Daniel James Williams, Bryngolau, Llandysul â Miss Lizzie Jones, Maesgwyn, Llanfihangel-ar-Arth.

Hir ddyddiau a phob llwyddiant iddynt.

Marwgofion.

DYDD Llun, Chwefror y 1af, bu farw Mrs. Eleanor Bowen, Bella Vista, Trebanos, yn dri ugain a deg mlwydd oed. Ganwyd hi yn Glaneinon, gerllaw Llanybyther ar y 13eg o Ionawr, 1862. Merch ydoedd i Daniel a Mary Davies, o'r lle uchod. Yr oedd ei rhieni yn addoli yng

Nghapel-y-Groes. Ond i Ysgol Sul Alltyblaca yr oedd hi yn myned. Bu yn gwasanaethu gyda'r Parch. David Evans, B.A., Maesymeillion am dymor, a mawr fel yr oedd dylanwad bore oes yn aros arni, a digwyddiadau yn fyw ar ei chof. Symudodd i Forgannwg pan yn un ar bymtheg oed, a phan yn ugain mlwydd oed ymbriodod a Lewis Bowen o Drebanos, ac yn y lle hwnnw y bu yn byw am y gweddill o'i hoes. Chwaer ydoedd i'r diweddar Jane Davies Garden, yr hon fu yn aelod yng Nghapel-y-Groes ar hyd y blynyddau, a'r hon oedd yn adnabyddus iawn yn yr ardal honno. Pe cawsai fyw hyd fis Ebrill nesaf buasai yn dathlu ei Phriodas Euraidd. Gweithiodd yn galed tra yn ieuanc dros ei phlant a'i phriod. Collodd ei mab, David Arthur, tua deg mlynedd yn ol fel canlyniad i'r niwed gafodd trwy y *poison gas* yn y rhyfel mawr. Bu yr ergyd hwnnw mor drwm fel nad ymunionodd byth wedi hynny. Bu yn ffyddlon a theyrngarol nodedig ar hyd ei hoes i'r achos crefyddol yn Gellionnen a'r Graig. Mynychodd yr Ysgol Sul hyd y diwedd. Yr oedd yn y Cymundeb olaf cyn ei marw. Yr oedd yn Undodwraig o argyhoeddiad. Medrai pan fyddai galwad am hynny roddi rheswm dros y gobaith a oedd ynddi. Yr oedd ei chynghorion call, ei phresenoldeb siriol, a'i chyfraniadau cyson, yn nerth mawr i'r eglwys, a bydd y bwlch ar ei hol yn un anodd iawn ei lanw. Gwan fu ei hiechyd am flynyddau, a chymharol fyr fu ei chystudd olaf, ychydig gydag wythnos. Gadawodd i alaru ar ei hol, dau fab a dwy ferch, ac un ferch fabwysiedig, a dau frawd, a llawer o nithod a neiaint. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Gellionnen dydd Sadwrn, y 6fed o Chwefror, pryd y daeth lliaws mawr o gyfeillion a pherthynasau a chymydogion yng nghyd i'w hangladd. Arweiniwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, rhwng yr hwn a'r teulu y mae cyfeillgarwch llawer o flynyddoedd, ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. D. G. Rees, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Daniel John, Gosen a'r Parch. T. E. Evans, Capel y Wern, Ystalyfera. Cynhaliwyd oedfa goffa yng Nghapel y Graig, nos Sul, Chwefror yr 21ain, pryd y pregethwyd i gynulleidfa anarferol o luosog gan y cyn-weinidog, ac y canwyd y Dead March ar yr organ gan Mr. Isaac E. Hopkin, B.Sc., Brynderw, Trebanos. Heddwch i'w llwch, a bydded ei choffadwriaeth yn fyth-wyrdd yn ei theulu a'r eglwys oedd mor ddefnyddiol ynddi.

Nos Iau, Chwefror y 18fed, bu farw Mrs. Margaret Lloyd, Graig Road, Trebanos, yn 54 mlwydd oed. Merch Penybanc, Trebanos, ydoedd yr ymadawedig. Ni chafodd yr ysgrifennydd adnabyddiaeth o'i thad, ond adwaenai ei mham yn dda. Yr oedd honno yn un o'r rhai caredicaf a mwyaf cymwynasgar yn yr ardal. Bu teulu Mrs. Lloyd yn noddwyr i'r achos yng Ngellionnen am genhedlaethau. Ac y mae y disgynyddion y rhan amlaf o honynt yn aros yn ffyddlon o hyd. Bu Mrs. Lloyd yn un o'r rhai ffyddlonaf yn ol ei gallu a'i hamgylchiadau yn yr eglwys. Yr oedd yn bleser ei chlywed yn darllen y Beibl,—trysorodd lawer o hono ar ei chôf. Yr oedd yn chwaer gwerth ei hefelychu yn ei chysondeb yn yr Ysgol Sul, ac yn yr oedfaon crefyddol. Yr oedd ei *chysondeb* yn cyfrannu tuag at achos Duw yn Gellionnen a'r Graig yn deilwng o'r edmygedd mwyaf. Gadawodd i alaru eu colled anadferadwy ar ei hol, briod, a dau o blant—Hannah yn bedair ar ddeg oed, a William John yn ddim ond wyth mlwydd oed. Corff eiddil ac iechyd gwan fu iddi am y rhan fwyaf o'i hoes. Bu yn gystuddiol am ychydig fisoedd ac ymadawodd fel pe bai cannwyll yn diffodd ar y dyddiad a nodwyd. Claddwyd ei chorff ym mynwent Gellionnen ddydd Llun, Chwefror yr 22ain. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Daniel John, Gosen, Trebanos. Yr oedd yr angladd yn gyhoeddus, a chafodd angladd lluosog iawn, yn ddangosfa o'r parch fynwesid tuag ati hi, ac at ei theulu lluosog yn yr ardal.

Boreu dydd Gwener, y 19eg o Chwefror, bu farw yr annwyl frawd Banos Davies, ar ol ychydig wythnosau o gystudd. Ar adegau ymddangosai fel pe bai ar wellhad er llawenydd i'w deulu a'i ffrindiau lluosog, ond er pob gofal teuluol a gallu meddygol fe ddaeth y terfyn ar y dydd a enwyd uchod. Yn ei farwolaeth y mae Eglwys y Graig a Gellionnen wedi colli un o'i aelodau mwyaf ffyddlon, teyrngarol a gweithgar. Fe wnaeth waith mawr dros yr eglwys mewn llawer cyfeiriad fel y teimlaf mai anodd fyddai cofio'r cwbl a wnaeth. Llanwodd y swydd o ysgrifennydd yr eglwys am rai blynyddoedd gyda ffyddlondeb a boddlonrwydd cyffredinol. Y mae hyn yn golygu llawer iawn o waith a llafur cariad i gyd. Bu'n arolygydd yr Ysgol Sul hefyd am beth amser. Cawsom o ffrwyth ei wybodaeth fel athraw yn yr Ysgol am dros chwarter canrif. Ac yma efallai fe'i gwelsom yn un o'i gymwysderau goreu. Rhywfodd fe fedrai gydymddwyn ac ennill serch yr ysgolheigion o bob gradd ac oedran. Yr oedd yn hynod effeithiol gyda'r ieuanc. Bum yn ei ddosbarth lawer gwaith a chawsom lawer ymgom ddiddorol iawn. Fel athraw yr oedd yn foneddigaidd, teg a goddefgar. Rhoddai chwareu teg i bob aelod yn y dosbarth i draethu eu farn. Ac yn bennaf oll yr oedd yn esiampl yn y cyfeiriad yma. Medrai siarad ar bynciau'r dydd gyda sêl ac arddeliad ac hefyd gwneuthur hynny yn yr ysbryd iawn heb dramgwyddo neb. Yr oedd fel Paul gynt yn barod i gydnabod mai " Rhydd i bob dyn ei farn ac i bob barn ei llafar ". Yr oedd ganddo argyhoeddiadau cryfion ac nid ofnai eu datgan pan oedd amgylchiadau yn galw am hynny, hyd yn oed yn wyneb llawer o ddirmyg. Gwelsom ef cyn hyn yn sefyll yn wrol dros ei egwyddorion o blaid achosion amhoblogaidd. Gwell ganddo ef wneuthur hynny na myned yn ysgafn a di-feddwl gyda'r llu. Yr oedd ynddo gymhwysderau disglaer a'i galluogodd i fod o wasanaeth mawr mewn llawer cylch o fywyd. Yr oedd yn gerddor medrus a gwnaeth lawer yn y cyfeiriad yma yn enwedig mewn cysylltiad a Chapel y Graig a'r Cymanfaoedd Canu ar hyd y blynyddoedd a aeth heibio. Yr oedd yn byw mewn cylch eang iawn. Yn ddiamau yr oedd yn adnabyddus bron i holl Gwmtawe fel bardd, adroddwr a dadleuwr mewn cyfarfodydd llenyddol a chystadleuol. Gwelir ei eisiau yn fawr yn y Graig yn y cyfeiriad yma. Yr oedd pawb yn hoff o wrando arno yn adrodd gan ei fod fel rheol mor llon, diddorol ac adeiladol. Ac fe roes o'i wasanaeth yn y cyfeiriad yma am tua deugain mlynedd hyd nes i'w iechyd waethygu. Wedi i'r Parch. D. G. Rees ymddiswyddo efe fu yn trefnu'r supplies yn y Graig a Gellionnen a thrwy hynny fe gawsom y fraint o wrando ar lawer o frodyr o wahanol enwadau. Cyflawnodd y gwaith yma am tua blwyddyn a hanner o amser gyda'i fedrusrwydd arferol. Eto fel Gohebydd i'r Ymofynnydd fe wnaeth waith mawr dros yr eglwys a'r enwad hefyd o ran hynny. Y mae yr enw Banos yn ddigon adnabyddus i ddarllenwyr yr Ymofynnydd bellach. Ond efallai nad yw pawb yn gwybod ei fod wedi bod yn ysgrifennu iddo am y tymor hir o bymtheg mlynedd ar hugain. Fe gawsom y pleser o ddarllen ffrwyth ei feddwl a'i ysgrifbin yn ystod y cyfnod maith hwn. Hoffem ddarllen ei farwgofion tlws, naturiol a theimladwy. Trist yw sylweddoli fod y meddwl a gyfarwyddodd y llaw i ysgrifennu mor fedrus wedi cilio y tu hwnt i'r llen. Danfonodd hanes ugeiniau o farwolaethau i'r Ymofynnydd ond wele'r gorchwyl o'r diwedd wedi syrthio i ran arall i ddanfon hanes ei farwolaeth ef. Yn ei farwolaeth fe gyll Trebanos un o'i chymeriadau a'i chymwynaswyr goreu. Ond yr ydym yn credu fod y golled yn fwy byth i'w gydmar annwyl sydd wedi ei hamddifadu o hono. Yn ei thristwch a'i gofid blin bydded iddi sylweddoli mewn gwirionedd fod Tad yr amddifad a Barnwr y weddw yn ffynhonnell o gysur a diddanwch iddi yn awr ei phrofedigaeth lem. Heddwch i'w lwch ym mynwent henafol Gellionnen.

Hwyr Sul, Mawrth 6, yn 76 mlwydd oed, wedi cystudd hir (wedi ei daro gan ergyd o'r Parlys yn yr Hydref a heb fedru dweyd nemor air oddiar hynny) bu farw David Davies, Rhoslwyn, Cwmanne, Llanbedr. Mab ydoedd i'r diweddar Deio'r Hwper a brawd i'r diweddar Barch. Hathren Davies, Cefncoed y Cymer. Ymaelododd yn Nhynrhewl ar yr hwyr Sul Cymundeb cyntaf hwnnw ym Medi 1874 pan gorfforwyd Ysgol Sul y Ram a Thynrhewl yn Eglwys cyn meddwl ond odid am godi Brondeifi. Yr oedd wedi bod felly yn aelod yma am drigain namyn dwy o flynyddoedd a chadwodd yn ffyddlon yn ystod y blynyddoedd hir, fel aelod ac fel diacon ers blynyddoedd bellach—ymhell cyn fy amser i o leiaf. Yr oedd rhywbeth yn brydferth ynddo, bob amser a chroeso a gwên ar ei wyneb, ac yr oedd ef o leiaf yn barchus o'i weinidog. Onibai y'i camesbonid hwyrach dywedwn ond ba waeth, credai ef nad oedd y fath bregethwr a'i weinidog. Dyna'i ffordd garedig ef o ddweyd fy mod yn ei fodloni. Yr oedd yn gymeriad cryf a chadarn, yn weithiwr diwyd a gonest, yn gymydog hawddgar ac yn Gristion. Gwnaeth ddiwrnod da o waith ac ni fedrem lai na galaru o'i fynd. Gadawodd briod a fu'n dyner ohono, dau fab a merch, (un o'r meibion yw y Parch. Rhoslwyn Davies, Manceinion), un brawd a thair chwaer (un ohonynt yn y gornel ers tro), i wylo ar ol priod tyner, tad ymroddgar a brawd annwyl. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Brondeifi y dydd Iau dilynol pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog y Parch. T. O. Williams, M.A. gyda chynhorthwy caredig y Parchn. E. O. Jenkins: T. Eurig Davies, M.A., B.D. a D. Conwil Evans. Nodded y nef a fo dros y teulu.

Chwefror 23, yn 74 oed, bu farw Evan Jones, Abernant, ger Cribyn. Ni bu ei iechyd yn dda er's rhai blynyddoedd, eithr byr a fu ei gystudd olaf—ychydig wythnosau. Cystudd caled iawn a fu ei gystudd, a da oedd iddo gael rhyddhad o hono yn ei farw. Gôf ydoedd o alwedigaeth, ac ystyrrid ef yn grefftwr deheuig a didwyll. Dilynai ei alwedigaeth yn y lle uchod y rhan fwyaf o'i fywyd, yng Nghwmpib cyn hynny, lle bu ei deidiau hefyd yn dilyn yr un alwedigaeth. Ar gyfrif methu o'r iechyd a'i olygon, bu raid iddo ymddeol oddiwrth ei waith rai blynyddoedd yn ol. Dyn tawel, di-son-am-dano, na ddywedai ac na feddyliai ddrwg am neb ac na wnai ddrwg i neb, o rodiad cywir a didwyll ydoedd; a pherchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Ymaelododd yng Nghapelygroes pan oedd gymharol ieuanc, a bu'n aelod ffyddlon a defnyddiol hyd yr analluogwyd ef. Yr oedd yn gerddor gwych—un (ychydig sydd fyw) o aelodau "Ysgol Gân" Jones Aberaeron. Bu am ryw gymaint o amser yn "godwr canu" ac yn arweinydd yr Ysgol Gân. Yn y cysylltiadau hyn, meddai gymhwysterau arbennig—llais nid cryf ond swynol iawn, gwybodaeth gywir o elfennau cerddoriaeth, "a'i enaid i gyd yn y gan". Parhaodd ei hoffter o ganu hyd y diwedd eithaf; yn ei boenau torrai allan i ganu rhai o'i hoff emynau, megis "Gwel uwchlaw cymylau amser", ac eraill; ac os methu a chanu a wnai ef ei hun, hoffai glywed ei blant a weiniai arno yn ei ddyddiau olaf yn canu. Bu farw fel y bu fyw—yn sŵn y gân. Gwyn ei fyd. Gadawodd mewn galar o'i golli briod, chwech o blant—tri mab a thair merch—a pherthynasau agos eraill. Y Sadwrn dilynol y bu ei gladdedigaeth yn Nghapelygroes, y cynhebrwng gyfyngedig i'r cymdogion agosaf. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans.

Gwag yw lle'n cyfagos—gymydog
Mae'i adwy yn aros
Yn ddidaw os draw aeth dros
Y llwch i'w arall achos.

A daeth gŵyl i'r dur forthwylion—
hylaw,
Fe alwyd y rhadlon
Hyfwyn Sant i fynwes Ion,
O'r ing a miri'r eingion.

Cribin Bach.

Hwyr Sul, Mawrth 13, Mary, annwyl briod John Jones, Gellihên, Talgarreg, yn 72 oed. Bu'n nychu am tua blwyddyn—yn rhyw wanhau a diflanu'n raddol ond ni feddyliodd neb fod ei diwedd mor agos. Ychydig ddyddiau cyn ei marw gwaethygodd a gwaethygu wnaeth o awr i awr hyd nes iddi ffarwelio. Merch ydoedd i'r diweddar John (Gôf) a Rachel Thomas, Efail, Castellhywel. Yr oedd yn un o nifer luosog o blant ond erbyn heddyw un o honynt yn unig a erys. Wrth ei cholli cafodd y priod a'r plant golled fawr iawn. Benyw yr aelwyd a'r cartref ydoedd yn bennaf —un yn byw i'w theulu. I'w hadnabod rhaid oedd ei gweld ar ei haelwyd a hynny'n fynych. Yr oedd ganddi ddawn arbennig i drefnu gwaith a chadw pawb a phopeth yn eu lle—gwnai hyn megis heb yn wybod iddi ei hun ac heb yn wybod i aelodau'r teulu. Hi oedd yn teyrnasu—ond nid teyrnasu â gwialen haiarn—nid fel un a fynnai gael ei ffordd ei hun ond am ei fod ynddi ac am fod pob aelod o'r teulu am iddi i deyrnasu. Braint gan bob un o honynt oedd cael syrthio i fewn i'w threfn hi. Yr oedd hefyd yn wraig ddarbodus, bwyllog, onest—gonest yn ei siarad yn ogystal ag yn ei gweithred. Er na chaem moi chwmni yn y gwasanaeth ar y Sul yn Mwlch-y fadfa credwn ei bod gyda ni o ran ei meddwl ymhob gwasanaeth—yn wir gyda phopeth perthynol i lwyddiant yr achos yn y lle. Gofalai fod gwaith y Sul yn cael ei drefnu a'i gyflawni fel ag i alluogi ei merched i fod yn bresennol yn y cwrdd a'r Ysgol Gân a channoedd o weithiau y dywedodd "Nawr, ati ferched neu fe fyddwch yn ddiweddar yn y cwrdd". Arosai gartref ei hun er iddynt hwy gael mynd. Nid yn unig yr oedd yn brâf ar yr aelwyd i aelodau'r teulu ond i ymwelwyr hefyd—a phwy all ddweyd nifer y rhai hyn? Doedd dim mynd o'r Gelli heb bryd o fwyd ta faint y protestio nad oedd ei eisiau a phob amser rhoddid y gorau oedd yn y tŷ a digon o hono o flaen yr ymwelydd —a gorau i gyd po fwyaf a fwyteid. Yr oedd ganddi galon fawr, dyner—calon ai allan mewn tosturi a chydymdeimlad at deuluoedd yr ardal yn eu cyfyngderau. Hyderwn y ca y priod, y plant, wyrion, brawd a'r perthynasau eraill nerth yn ôl y dydd a gwawl y nef i oleuo ar eu llwybr. Hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Bwlchyfadfa y dydd Iau dilynol ac yr oedd yr angladd yn un lluosog iawn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins; T. Lloyd (E), Llanon, hen gyfaill i'r teulu; H. Ponsford (E), Talgarreg a Mr. J. Marles Thomas.

Ionor 26 yn 78 mlwydd oed, bu farw Mrs. Mary Jones, Allt-shedrem, Pencarreg, wedi cystudd hir. Yr oedd wedi cael ergyd o'r parlys ac wedi'i chaethiwo i'w gwely ers tro hir ond dioddefodd y cyfan yn amyneddgar a siriol. Yr oedd yn gymeriad cryf, yn ffyddlon yn ei chapel, yn llawn ar ei haelwyd ac yn barchus yn ei hardal. Fe wel y plant sydd wedi eu gadael ar ôl eisiau mam ofalus er eu bod bron i gyd a chartrefi eu hunain ganddynt bellach, ond er a chartrefi eu hunain edrychent ar yr hen aelwyd fel eu cartref gan ddweyd gydag Islwyn ac eraill "Tra fo mam, cartref i mi." Claddwyd ar y 30 o Ionor ym mynwent Eglwys Pencarreg. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. Jones (ei gweinidog); T. O. Williams, M.A. a W. Ll. Davies ac yn yr eglwys a glan y bedd gan Ficer y Plwyf. Gadawodd feibion a merched, heblaw perthynasau eraill a chylch eang o gydnabod i alaru yn gymedrol ar ôl mam annwyl a benyw dda.

Ar y 27ain o Chwefror yn 77 mlwydd oed, Mrs. Mary Thomas, Frondeg, Llanybyther, gweddw y diweddar Lewis Thomas, yr hwn oedd yn ei amser yn aelod ffyddlon iawn yng Nghalltyplaca ac yn flaenor dylanwadol a pharchus. Cafodd Mrs. Thomas gystudd maith ond ymostyngodd iddo yn ddi-gwyn a gofalodd ei brawd yng nghyfraith Mr. James Thomas fod iddi y driniaeth oreu a

phob gofal. Un o wir foneddigesau natur oedd Mrs. Thomas, ac hyd y gallodd llanwodd ei lle yn ei chapel a'i chymdogaeth yn dderbyniol iawn. Claddwyd ei gweddillion y Mercher canlynol yng nghladdfa Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Morris Jones, Capel Nonni a T. Arthur Thomas. Yn y Capel gan ei gweinidog y Parch. S. E. Bowen ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd lu o berthynasau i alaru ar ei hôl.

Ar y 4ydd o Fawrth yn "Temple Buildings", Llanbedr, yn 55 oed, Miss Margaret Richards, Parc-yr-rhos. Bu yn fethiedig am flynyddoedd ac yn herwydd hyn gorfu iddi adael ei chartref am Lanbedr lle cafodd bob gofal hyd ei diwedd. Claddwyd ei gweddillion y llun canlynol ym mynwent Eglwys Llanwnen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. S. E. Bowen a T. Oswald Williams, a chan y Parch. Thomas Jones yn yr Eglwys ac ar lan y bedd. Un o hen ffyddloniaid Capel y Bryn ydoedd—ac yn yr ardal mae llawer o'i pherthynasau yn hiraethu ar ei hôl.

Mawrth 15, yn 70 oed, bu farw Dr. Evan Evans, Aeron Villa, Ystrad. Anfoddhaol a fu ei iechyd er's peth amser, eithr rhyw bythefnos y parhaodd ei gystudd olaf. Mab ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. Thomas Evans, Tynant, Ciliau, yr henaf o ddeuddeg o blant. O honynt y mae saith yn fyw—dau frawd (un, Dr. Thomas Evans, Abertawe) a phum chwaer. Yn ychwanegol, gadawodd weddw i hiraethu ar ei ôl. Yr oedd, felly, yn aelod o dylwyth a fu'n flaenllaw ynglŷn â'r mudiad Undodaidd yng Ngheredigion er ei gychwyn. Derbyniodd ei addysg yng Nghribin, Llandysul, Llanymddyfri, Dolgellau, ac Aberystwyth. O'r olaf aeth i Ysbyty Bartholomew, lle graddiodd yn M.R.C.S. ac L.R.C.P.; hefyd, enillodd y graddau L.S.A. a D.P.H.—yn yr olaf safai'n flaenaf ar y rhestr. Bu am beth amser yn ddarlithydd yn y City of London College; wedi hynny aeth i Brighton. Enillodd gryn enwogrwydd fel awdurdod ar faterion ynglyn ag iechyd. Dychwelodd i'w ardal enedigol, a buan daeth i sylw fel meddyg deheuig, a chynhyddu a wnai ei boblogrwydd hyd ei farw. Y Sadwrn dilynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Capel Ciliau, y cynhebrwng yn gyfyngedig i berthynasau a meddygon y Sir. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

Mawrth 15, yn 70 oed, bu farw John Howells, Rose Cottage, gynt o Faesgwyn, Cribyn, yn hynod ddirybudd ac annisgwyliadwy. Aeth allan o'r tŷ y bore uchod, yn ôl ei arfer, i bob ymddangosiad yn holliach; eithr cyn iddo fynd ymhell, syrthiodd ar yr heol, a bu farw heb adennill ei ymwybyddiaeth. Collodd ei briod tua dwy flynedd yn ôl; ac wedi ei marw hi, aeth i fyw at ei ferch a'i fab yng nghyfraith yn y lle uchod. Un o ardal Cribyn ydoedd o enedigaeth, ac yn yr un ardal y treuliodd yr oll o'i fywyd. Hannai o dylwyth a fu'n lluosog iawn yn y gymdogaeth y ganrif ddiweddaf, ac yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Cribyn. Y maent wedi diflannu ymron i gyd, ac ef oedd un o'r ychydig olaf o'r hen genhedlaeth; eithr bu ef yn gychwyn i genhedlaeth newydd; ac y maent hwythau yr un mor ffyddlon yn y "Capel bach" a'u teidiau. Gadawodd mewn hiraeth o'i golli chwech o blant—pum merch ac un bachgen,—a nifer luosog o wyrion—pump ar hugain o honynt, fel y clywais ddydd ei angladd, ynghyd a pherthynasau agos eraill. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y Capel y Sadwrn dilynol, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r cymdogion agosaf. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans.

Nodion yr Eglwysi.

BRONDEIFI.—Hwyr Mawrth 29, yr oedd yn "field-day" gan Urdd Benywod Brondeifi a chymaint ddwywaith wedi gwthio i'r ysgoldy ag y fwriadwyd iddi erioed ddal. Estynnid croeso i aelodau canghennau eraill o'r Urdd yn y Sir i ymweld â ni a daeth y cerbydau o Gwmsychbant, Capel y Bryn, Alltyblaca, Caeronnen, Rhydygwin a Chiliau. Yr oedd yn dda gennym eu gweld er iddynt hwy efallai gael rhyw galondid i gario 'mlaen. Y mae'n haelodau wedi bod yn ddiwyd a ffyddlon yn ystod tymor y gaeaf ac yr oedd y gwaith yn cael ei ddangos y noson hon. Ofer fuasai ceisio nodi pob dim ond teg dyweyd fod yma *naw* eiderdown wedi'u gwneuthur, fod yma werth rhyw ugain punt o fancy work wedi'i bwrcasu, fod basgedi, a matiau a chadeiriau wedi'u gwneud a'u plethu, fod yma "wool a silk embroidery" anodd ei guro. Mynnai rhai gerfio hen gadeiriau ac eraill yn cwilto, a gwneud menig swede, neu wau menig. Yr oedd yna dê i bob aelod ac er dangos fod Brondeifi'n gwerthfawrogi help pob un estynnid rhodd fach i bob un a fu'n hwylusu'n llwybr megis Mrs. Jones, Croslan (Italian quilting, Eiderdowns ac yn y blaen), Miss Evans, Coedmor Hall (Cyfarwyddiadau at wneud bwydydd), Miss Evans, Ffynonfair (Awgrymiadau tŷ), Miss Davies, B.A., Llwynifan (Plethu basgedi), Miss Mary Davies, Glynteifi (gwneud blodau o feads), Mrs. Jones, Y Bryn (Ymgom), Miss Nancy Lee a Nanna Williams (beads matiau corc), Miss Jones, Hafodybryn (Plethu cadeiriau â chans) a Mrs. Jones, Blaenblodau (am gyfarwyddyd a help). Yn ystod y noson lawen, cawd unawdau, adroddiadau, pedwarawdau, ac unawdau a deuawdau ar y berdoneg, y crwth a'r 'cello gan aelodau'r urdd a chyfeillion pell ac agos. Anodd fuasai trefnu gwell noson er dwyn yr aelodau at ei gilydd a chredaf fod y gwahoddedigion wedi mwynhau eu hunain ar waethaf y noson arw a'r lle cyfyng. Llywyddwyd y cyfan gan Lywydd yr Urdd (Mrs. Daisy Williams). Credaf bod dechreu pob cyfarfod a gwasanaeth o'r Llyfr Gwasanaethau wedi rhoi naws hyfryd a thôn i'r cyfan ac yr ym ni ym Mrondeifi wedi penderfynu cario 'mlaen drwy'r haf.

LLWYNRHYDOWEN.—Anrhegodd Mr. T. Thomas, Spring Gardens, Llandyssul a Mr. William J. James, Rhydcoedfoel, aelodau cynulleidfa ac Ysgol Sul y lle hwn a gwledd ardderchog o Dê nawn Mercher, Mawrth 9. Yr oedd yr hîn yn ddymunol rhyfeddol—tesog fel prynhawn yn Mai—a bu hynny'n help i nifer luosog iawn i fanteisio ar garedigrwydd y ddau foneddwr. Gofalwyd fod popeth dewisol ar y byrddau a bu gwragedd a merched ieuenc y gynulleidfa'n ddiwyd a llon fel arfer gyda'r gweini. Rhanwyd aurafalau a melusion hefyd rhwng y plant. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngerdd blynyddol yr Ysgol Sul, o dan lywyddiaeth Mr. William James yr hwn a draddododd anerchiad buddiol a hapus iawn. Yn ystod y cyfarfod talwyd y diolchiadau arferol dros y gynulleidfa gan Mr. Richard Davies, Penrallt—arolygydd yr Ysgol Sul. Rhanwyd gwobrwyon o lyfrau a rhoddion oddiar Goeden i'r plant fu'n ffyddlon yn eu mynychiadau yn ystod 1931. Cadwodd pump bob Sul yn ddifwlch. Nos Sadwrn, Mawrth 12, cynhaliwyd Eisteddfod flynyddol yr Ysgol Sul. Cyfarfod llwyddiannus ymhob ystyr. Beirniadwyd y canu gan Mr. Dan Davies, Belan House, Llanybyther; yr adrodd gan Mr. Dan Jones, C.M., Mydroilyn a'r gelf gan Mr. Samuel Davies, Coedlannaufach.

Y GRAIG, TREBANOS.—Nos Iau, Ionawr y 15 cafwyd cyngerdd nodedig swynol yn Ysgoldy y Tabernacl, Pontardawe, gan y Dorian trio. Miss Taylor ar y 'Cello, Miss Leyshon ar y Violin a Miss Enid Lewis ar y Piano. Merch ydyw Miss Lewis i gyfeillion da yr achos Undodaidd,

Mr. a Mrs. John Lewis, Pontypridd. Y mae y trio yn mynd o gylch Cymru tan y Welsh National Council of Music, gyda'r amcan i feithrin a datblygu chwaeth at gerddoriaeth linynol ac offerynol cyffredin a elwir yn Chamber Music. Yr oedd yno gynulliad boddhaol, a gwerthfawrogiad mawr o'r rhaglen yn cael ei ddangos. Yr oedd Nos Iau, Ionawr y 13 yn noson bwysig i'r eglwys. Bu pawb ar eu gorau am wythnosau yn paratoi ar gyfer ymweliad cwmni enwog Trecynon i roddi perfformiiad yn Neuadd Gyhoeddus Pontardawe. Yr oedd y neuadd yn gyffyrddus o lawn, cynulleidfa yn agos i fil o bobol, y cwmni yn ei hwyliau goreu yn y comedi "The Devil's a Saint". Disgwylir cael elw sylweddol tuag at adeiladu Neuadd Newydd ger llaw Capel y Graig, at wasanaeth cyffredinol y gynulleidfa. Cymerwyd i fyny gymaint o'r ysgoldy gan yr organ fel y mae yn rhaid cael neuadd er mwyn cario allan waith yr eglwys yn y dyfodol. Y mae hefyd fudiad ar law i adeiladu tŷ at gartrefu y gweinidog. Gwerthwyd "Bryn-y-wawr", y tŷ oedd yn cael ei berchenogi gan yr eglwys, ac y mae y pris a gafwyd am dano yn ŵy addod i drysorfa i dalu am y tŷ newydd. Fe wel y darllenydd fod y gynulleidfa yn Gellionnen a'r Graig yn weddol anturiaethus, er gwaethaf y wasgfa fasnachol yn yr ardal.

GWASANAETH CLADDU.

Mr. Golygydd,—

Efallai y caniatewch air neu ddau mewn atebiad i'r sylwadau dan y penawd uchod gan eich gohebydd di-enw. Yn yr ardal yma angladdau cyhoeddus yw y rheol gyffredin. Cleddir y rhan amlaf yn y gladdfa gyhoeddus. Cynhelir gwasanaeth byr yn y tŷ a gwasanaeth ar lan y bedd. Anaml y ceir gwasanaeth yn y capel, ond ceir anerchiad ar lan y bedd. Wrth ddyfod adref o angladd lle y bum yn gwrando ar weinidog profiadol (o enwad arall) yn anerch tyrfa o ddynion ar lan bedd dyn cymharol ddieithr iddo, gofynnais i'r gweinidog yna beth feddyliai am am yr arferiad yna,—dyma a ddywedodd—fod hyn o leiaf i'w ddweyd tros yr arferiad—*y ceid cyfle i ddweyd rhywbeth wrth fobl na ddeid i gyffyrddiad a hwynt ar unrhyw achlysur arall.* Hefyd, clywais rai o'm haelodau yma yn dweyd yr arferai Hathren, o annwyl goffadwriaeth, ddweyd, mai *pregethu i'r byw ac nid i'r marw* a wnai ef. A dyna, gredaf fi, yw yr ateb priodol i awgrym eich gohebydd —na ddylid dibrysio cyfle i bregeth i'r byw, gan nad beth oedd attitude y marw tuag at grefydd, na'i gyfraniadau i'w eglwys. Bum yn darllen yn ddiweddar, ryw ychydig o sylwadau miniog a wnaed yn y Christian Century (America) mewn cysylltiad a'r ffaith fod rheithor yn yr Amerig wedi dweyd pethau uchel, a gobeithiol iawn am William Wrigley yn ei angladd. Miliwnydd a wnaeth ei ffortiwn o *chewing gum* oedd William Wrigley, a gallem gasglu oddiwrth y sylwadau y cyfeiriaf atynt, nad oedd dim yn ei fywyd a'i nodweddai fel un o blant y deyrnas, ond, efallai, y ffaith y gwnai gyfrannu yn drwm i'w eglwys. Oni fyddai yn fil gwell ar les crefydd, ac yn fil gwell ar les eneidiau gweinidogion, i bregethu ambell i dro mewn angladd dyn cyffredin na wnaeth erioed gyfrannu hatling at yr achos, na gosod ei hunain yn agored i watwareg o'r fath yna! O dderbyn awgrym eich gohebydd, ni fyddai yr Eglwys ond un ymysg llawer o gymdeithasau "exclusive" eraill megis y "Freemasons" a'r "Buffs" yn hytrach na sefydliad wedi ei thyngedu i weithredu yn yspryd yr hwn a bregethai Dduw a ddenfyn ei weision i'r prif-ffyrdd a'r caeau—ac a dreuliodd ei fywyd ei hun i weini i bobl oeddynt yn gwbl tu allan i gylch yr "achos". Ceisiwn gadw gafael ar ryw ychydig o yspryd ein Hathraw—a gofalu peidio gadael i arogl snobyddiaeth ddyfod yn agos i'w "gymwynas olaf."—Yr eiddoch, Tom *Cefn Coed y Cymer.*

CAPEL Y BRYN.—Nos Wener, Chwefror y 12fed, cafodd y Gymrodoriaeth ymweliad oddiwrth Mr. Bryn Jones, B.Sc., Tregroes. Cyrhaeddodd yng nghwmni Mr. Thomas, Penarwel yn brydlon i'r amser, ac o bryd i bryd cyrhaeddodd hefyd rai o'r aelodau ond rhy ychydig o lawer ar yr achlysur arbennig. Rhoddodd Mr. Jones, mewn ffordd hapus iawn araith hynod o ddiddorol ac addysgiadol ar y pwnc "Edrych Ymlaen." Dywedodd ei bod yn ofynol i edrych yn ôl cyn y gellir gwneuthur cyfrif o'r dyfodol. Gwnaeth hynny—ar hyd y canrifoedd lawer sydd wedi mynd—a chanfu mai yr hyn sydd i gyfrif am ddiwylliant bywyd, a gwareiddiad yn ei fannau goreu yw, nid symudiadau'r dorf, na gweithrediadau cymdeithas—ond bywydau unigolion—personau mawr, yn torri tir ac yn agor llwybrau newydd. Cadeiriwyd gan y Gweinidog a diolchwyd yn wresog i Mr. Jones am ei araith.

(DARLLENIR y penillion hyn gan lu cydnabod y Parch. Lewis Williams gyda blâs. Byddant yn falch clywed fod ei *obaith* yn *wyn* wedi nos afiechyd hir, ac yn falchach na hynny gwybod ei fod yn wynebu haf eleni a'i afael yn sicrach ar fywyd a ninnau'n credu ei fod wedi troi'r tro ar y llwybr at iechyd er yn para'n wan. Fe fyddai'n dda iddo ennill digon o nerth er i ni gael ei glywed yn traddodi y bregeth a awgrymodd i ni yn y gornel pwy ddydd. Y mae holl ddarllenwyr yr YMOFYNNYDD yn rhwym gydag ef ac yn dymuno iddo nodded y Nef ac adferiad—os araf—i'w gynefinol iechyd).

Y GOBAITH GWYN.

CAWN ein cynnal nos a dydd
Pan ein baich nid ysgafn fydd ;
Yn dra siriol yw ein gwedd,—
Yn ein calon y mae hedd.

Daw i'n profiad siomau blin,
Ac nid teg bob dydd mo'r hîn ;
Ond os garw ddydd a gawn,
Para wna ein ffydd yn llawn.

Gwyddom am dywyllwch du,
A chaledi o bob tu ;
Ond ein ffydd sydd eto'n gref,
Nid wylofus yw ein llef.

Dygir ni i lan y bedd
Yno'n drist y bydd ein gwedd ;
Ond ein ffydd nid â ar goll,
Ac ein dagrau sychir oll.

Sut mae cyfrif am ein ffydd ?
Sut mai nid anobaith sydd ?
Credu wnawn yn Nuw y nef,
Ac ymddiried ynddo Ef.

Credwn ni mewn arall fyd,
Lle cawn oll ein dwyn ynghyd,
Lle mae'r da mewn perffaith hedd,
Heb fod byth yn drist ei wedd.

Diolch wnawn i'r Dwyfol Dad
Am gael yr efengyl fâd ;
Ynddi cawn y gobaith gwyn
Sydd yn cynnal yn y glyn.

L.W.

"YR IORDDONEN".

DDU afon ddofn ! nid wy'n d'ofni—
Fy Naf
Fyn fy nwyn i'm noddi :
Ni fydd i'r ysbryd foddi,
Yma yr wyf gyda'm Rhi.

L.W.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.

(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.

By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.

(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.

An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVERSMITH and OPTICIAN.

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner at

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,'

LLANDYSUL.